

Mae'r Offeryn Statudol hwn yn cael ei argraffu yn lle'r OS sy'n dwyn yr un teitl, a oedd wedi cael ei gyhoeddi yn anghywir fel SI 2006/3009 (Cy.283), ac mae'n cael ei ddarparu am ddim i dderbynnwyr yr Offeryn Statudol hwnnw.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 3099 (Cy.283)

CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

**Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu
Effaith Amgylcheddol) (Diwygio) (Cymru) 2006**

<i>Wedi'u gwneud</i>	- -	<i>21 Tachwedd 2006</i>
<i>Yn dod i rym</i>	- -	<i>30 Tachwedd 2006</i>

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yntau wedi'i ddynodi gan Orchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 3) 2000(1) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(2) o ran y gofyniad i gael asesiad o effaith ar yr amgylchedd o brosiectau sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd, drwy arfer y pwerau hynny, a thrwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 71A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(3) ac sy'n arferadwy bellach o ran Cymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru(4), a phob pŵer arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effaith Amgylcheddol) (Diwygio) (Cymru) 2006 a deuant i rym ar 30 Tachwedd 2006.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, mae cyfeiriad at reoliad yn gyfeiriad at y rheoliad hwnnw yn Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effaith Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 1999 ("Rheoliadau 1999")(5).

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(1) O.S. 2000/2812, erthygl 2 ac Atodlen 1, paragraff 2.
(2) 1972 p.68. Cafodd pwerau galluogi adran 2(2) eu hestyn yn rhinwedd diwygio adran 1(2) gan adran 1 o Ddeddf Ardal Economaidd Ewropeaidd 1993 (p.51).
(3) 1990 p.8. Mewnosodwyd adran 71A gan Ddeddf Cynllunio ac Iawndal 1991 (p.34), adran 15.
(4) *Gweler* Erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac Atodlen 1 iddo (O.S. 1999/672), fel y'i hamrywiwyd gan erthygl 4 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2000 ac Atodlen 3 iddo (O.S. 2000/253) (Cy.5).
(5) O.S. 1999/293, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2000/2867.

Diwygio Rheoliadau 1999

2. Diwygir Rheoliadau 1999 yn unol â rheoliadau 3 i 19 o'r Rheoliadau hyn.

Diwygio rheoliad 2

3. Yn rheoliad 2(1) (dehongli)—

- (a) ar ôl y diffiniad o “the 1995 Act” mewnosoder —

““any other information” means any other substantive information relating to the environmental statement and provided by the applicant or appellant as the case may be;

“any particular person” includes any non-governmental organisation promoting environmental protection;”;

- (b) yn y diffiniad o “the consultation bodies”, ar ôl is-baragraff (b)(iii), dileer “and” ac, ar ôl is-baragraff (b)(iv), mewnosoder—

“and

- (i) other bodies designated by statutory provision as having specific environmental responsibilities and which the local planning authority or the Secretary of State, as the case may be, considers are likely to have an interest in the application;”;

- (c) yn y diffiniad o “environmental information”, ar ôl “further information” mewnosoder “and any other information”;

- (ch) yn y diffiniad o “exempt development”, dileer “which comprises or forms part of a project serving national defence purposes or”;

- (d) ar ôl y diffiniad o “the land”, mewnosoder—

““by local advertisement”, in relation to a notice, means—

- (a) by publication of the notice in a newspaper circulating in the locality in which the land to which the application or appeal relates is situated; and

- (b) where the local planning authority maintains a website for the purpose of advertisement of applications, by publication of the notice on the website;”.

Diwygio rheoliad 4

4. Yn rheoliad 4 (darpariaethau cyffredinol o ran sgrinio), yn lle paragraff (4) rhodder—

“(4) The Secretary of State may direct that these Regulations shall not apply to a particular proposed development specified in the direction in accordance with Article 2(3) of the Directive (but without prejudice to Article 7 of the Directive).

(4A) Where a direction is given under sub-paragraph (4), the Secretary of State must—

- (a) send a copy of any such direction to the relevant planning authority;
- (b) make available to the public the information considered in making the direction and the reasons for making the direction;
- (c) consider whether another form of assessment would be appropriate; and
- (d) take such steps as are considered appropriate to bring the information obtained under the other form of assessment to the attention of the public.”.

Diwygio rheoliad 7

5. Yn rheoliad 7 (gwneud cais i awdurdod cynllunio lleol heb ddatganiad amgylcheddol), ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

“(2A) Where the local planning authority is aware that any particular person is or is likely to be affected by, or has an interest in, the application and who is unlikely to become aware of it by means of a site notice or by local advertisement, the local planning authority shall notify the applicant of any such person.”.

Diwygio rheoliad 8

6. Yn rheoliad 8 (cais a gyfeirir at yr Ysgrifennydd Gwladol heb ddatganiad amgylcheddol), ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

“(3A) Where the Secretary of State is aware that any particular person is or is likely to be affected by, or has an interest in, the application and who is unlikely to become aware of it by means of a site notice or by local advertisement, the Secretary of State shall notify the applicant of any such person.”.

Diwygio rheoliad 9

7. Yn rheoliad 9 (apelio i'r Ysgrifennydd Gwladol heb ddatganiad amgylcheddol), ar ôl paragraff (4) mewnosoder—

“(4A) Where the Secretary of State is aware that any particular person is or is likely to be affected by, or has an interest in, the application and who is unlikely to become aware of it by means of a site notice or by local advertisement, the Secretary of State shall notify the appellant of any such person.”.

Diwygio rheoliad 13

8. Yn rheoliad 13 (y weithdrefn pan gyflwynir datganiad amgylcheddol i awdurdod cynllunio lleol)—

- (a) ym mharagraffau (1) a (2)(a), yn lle “three” rhodder “two”; a
- (b) dileer “and” ar ddiwedd paragraff (2)(b) a'r atalnod llawn ar ddiwedd paragraff (2)(c) ac, ar ôl paragraff (2)(c), mewnosoder—

“; and

- (d) where the planning authority is aware that any particular person is or is likely to be affected by, or has an interest in, the application and who is unlikely to become aware of it by means of a site notice or by local advertisement, send a notice to such person containing the details set out in regulation 14(2)(b) to (j) and the name and address of the relevant planning authority.”.

Diwygio rheoliad 14

9. Yn rheoliad 14 (cyhoeddusrwydd pan gyflwynir datganiad amgylcheddol ar ôl y cais cynllunio), ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

“(2A) Where the applicant has been notified under regulation 7(2A), 8(3A) or 9(4A) of such a person as mentioned in any of those paragraphs, the applicant shall serve a notice on every person of whom the applicant has been so notified; and the notice shall contain the information specified in paragraph (2), except that the date specified as the latest date on which the documents will be available for inspection shall not be less than 21 days later than the date on which the notice is first served.”.

Diwygio rheoliad 19

10. Yn rheoliad 19 (gwybodaeth bellach a thystiolaeth ynghylch datganiadau amgylcheddol)—

(a) yn lle paragraff (2), rhodder—

“(2) Paragraphs (3) to (9) shall apply in relation to further information and any other information except insofar as the further information is provided for the purposes of an inquiry or hearing held under the Act and the request for the further information made pursuant to paragraph (1) stated that it was to be provided for such purposes;”;

(b) ym mharagraff (3), ar ôl “pursuant to paragraph (1)” mewnosoder “or any other information”;

(c) ym mharagraffau (3)(d) i (g) a (j) a (4), ar ôl “further information” mewnosoder “or any other information”;

(ch) ym mharagraff (5)—

(i) ar ôl “further information” mewnosoder “or any other information”, a

(ii) yn lle “three” rhodder “two”;

(d) ym mharagraff (6), ar ôl “further information” mewnosoder “or any other information”;

(dd) ym mharagraff (7)—

(i) ar ôl “under paragraph (1)” mewnosoder “or any other information is provided”, a

(ii) ar ôl “further information” mewnosoder “or any other information”; ac

(e) ym mharagraffau (8) a (9), ar ôl “further information” mewnosoder “or any other information.”.

Diwygio rheoliad 20

11. Yn rheoliad 20 (argaeledd opiniynau, cyfarwyddiadau etc. i'w harchwilio), ym mharagraff (1)(g) ar ôl “further information” mewnosoder “and any other information”.

Diwygio rheoliad 21

12. Yn rheoliad 21 (dyletswyddau i hysbysu'r cyhoedd a'r Ysgrifennydd Gwladol o benderfyniadau terfynol)—

(a) ym mharagraff (1)(b), yn lle “publishing a notice in a newspaper circulating in the locality in which the land is situated” rhodder “local advertisement”;

(b) ym mharagraff (1)(c)(ii), ar ôl “on which the decision is based” mewnosoder “including, if relevant, information about the participation of the public”; ac

(c) dileer y gair “and” ar ddiwedd paragraff (1)(c)(ii) a'r atalnod llawn ar ddiwedd paragraff (1)(c)(iii) ac, ar ôl paragraff (1)(c)(iii), mewnosoder—

“; and

(iv) information regarding the right to challenge the validity of the decision and the procedures for doing so.”.

Diwygio rheoliad 22

13. Yn rheoliad 22 (datblygiad gan awdurdod cynllunio lleol), ym mharagraff (c) o reoliad 13(1) a amnewidiwyd gan baragraff (1)(e), yn lle “three” rhodder “two”.

Diwygio rheoliad 25

14. Yn rheoliad 25 (datblygiad nas awdurdodwyd)—

(a) ym mharagraff (4), ar ôl is-baragraff (b) ychwaneger—

“and

(c) any particular person who is or is likely to be affected by, or have an interest in it.”;

(b) ym mharagraff (12)(b), ar ôl “any further information,” mewnosoder “any other information”;

(c) ym mharagraff (15), ar ôl “paragraph 14” mewnosoder “and any other information”;

(ch) ym mharagraff (16)—

(i) ar ôl “paragraph (13)(a)” mewnosoder “or any other information”,

(ii) yn lle “in a local newspaper circulating in the locality in which the land is situated” rhodder “by local advertisement”, ac

(iii) yn is-baragraffau (c), (d) ac (e), ar ôl “further information” mewnosoder “and any other information”;

(d) ym mharagraff (17), yn lle “in a named newspaper” rhodder “by local advertisement”.

Diwygio rheoliad 27

15. Yn rheoliad 27 (datblygiad yng Nghymru a Lloegr sy'n debygol o gael effeithiau arwyddocaol mewn Gwladwriaeth arall yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd)—

(a) ym mharagraff (4)(a), ar ôl “in paragraphs (2) and (3)” mewnosoder “and any further information and any other information”;

(b) ym mharagraff (6)(b), ar ôl “on which the decision is based” mewnosoder “including, if relevant, information about the participation of the public”.

Diwygio rheoliad 28

16. Yn rheoliad 28 (prosiectau mewn Gwladwriaeth arall yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd sy'n debygol o gael effeithiau trawsffiniol arwyddocaol)—

(a) ym mharagraff (1), ar ôl “Article” mewnosoder “7(1) or”;

(b) dileer “and” ar ddiwedd paragraff (2)(a) a'r atalnod llawn ar ddiwedd paragraff (2)(b) ac, ar ddiwedd paragraff (2)(b), mewnosoder—

“; and

(c) so far as the Secretary of State has received such information, notify those authorities and the public concerned of the content of any decision of the competent authority of the relevant EEA State; and in particular—

(i) any conditions attached to it,

(ii) the main reasons and considerations on which the decision was based including, if relevant, information about the participation of the public, and

(iii) a description of the main measures to avoid, reduce and, if possible, offset any major adverse effects that have been identified.”.

Diwygio Atodlen 1

17. Yn Atodlen 1, ar ôl paragraff 20 ychwaneger—

“21. Any change to or extension of development listed in this Schedule where such a change or extension itself meets the thresholds, if any, or description of development set out in this Schedule.”.

Diwygio Atodlen 2

18. Yn Atodlen 2, ym mharagraff 13(a) yng ngholofn 1 (disgrifiad o'r datblygiad), ar ôl “in Schedule 1” mewnosoder “(other than a change or extension falling within paragraph 21 of that Schedule)”.

Diwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) 1995 (“Gorchymyn 1995”)(6)

19. Yn erthygl 1(2) o Orchymyn 1995, yn lle'r diffiniad o ““environmental information” ac “environmental statement”” rhodder—

““EIA development”, “environmental information” and “environmental statement” have the same meanings respectively as in regulation 2 of the Town and Country Planning (Environmental Impact Assessment) (England and Wales) Regulations 1999;”.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(7)

21 Tachwedd 2006

D. Elis-Thomas
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(6) O.S. 1995/419.

(7) 1998 p.38.

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn diwygio Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effaith Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 1999 (O.S. 1999/293) (“Rheoliadau 1999”) drwy weithredu erthygl 3 o Gyfarwyddeb 2003/35/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 26 Mai 2003 (OJ L 156, 25.6.2003, t.17 a honno'n ddogfen y cyfeirir ati yn y Rheoliadau hyn fel “y Gyfarwyddeb”) i'r graddau y mae'n effeithio ar gyfranogiad cyhoeddus yn y broses o wneud penderfyniadau ar geisiadau ac apelau sy'n ymwneud â datblygu y mae'n ofynnol asesu ei effeithiau amgylcheddol.

Mae'r Gyfarwyddeb yn darparu i'r cyhoedd gael cyfranogi yn y broses o lunio cynlluniau a rhaglenni penodol sy'n ymwneud â'r amgylchedd ac yn diwygio Cyfarwyddeb y Cyngor 85/337/EEC (OJ L 175, 5.7.1985, t.40) (fel y'i diwygiwyd gan 97/11/EC (OJ L 73, 14.3.1997, t.5) a Chyfarwyddeb y Cyngor 96/61/EC (OJ L 257, 10.10.1996)) ynghylch cyfranogiad cyhoeddus a mynediad at gyfiawnder.

Mae rheoliad 3 yn diwygio'r diffiniadau presennol o “consultation bodies”, “environmental information” ac “exempt development” yn rheoliad 2 o Reoliadau 1999 ac yn mewnosod diffiniadau newydd o “by local advertisement”, “any other information” ac “any particular person” yn y rheoliad hwnnw.

Mae rheoliad 4 yn diwygio'r gofynion o ran cyhoeddusrwydd ynglyn â phwer Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan reoliad 4(4) o Reoliadau 1999 i gyfarwyddo nad yw achos eithriadol (“exceptional case”) i fod yn ddarostyngedig i asesiad amgylcheddol.

Mae rheoliadau 5 i 9 yn mewnosod darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i hysbysu'r personau a'r cymdeithasau amgylcheddol sy'n debygol o gael eu heffeithio gan gais, neu sydd â diddordeb ynddo.

Mae rheoliadau 8(a), 10(ch)(ii) a 13 yn gostwng nifer copïau'r datganiad amgylcheddol y mae angen eu darparu o dri i ddau.

Mae rheoliadau 10, 11, 14 a 15 yn estyn y gofynion o ran gwybodaeth sy'n ychwanegol at unrhyw wybodaeth arall a ddarperir gan y ceisydd ynghylch y datganiad amgylcheddol.

Mae rheoliad 12 yn diwygio rheoliad 21 o Reoliadau 1999 (dyletswyddau i hysbysu'r cyhoedd a Chynulliad Cenedlaethol Cymru o'r penderfyniadau terfynol) drwy ei gwneud yn ofynnol bod hysbysu ehangach o benderfyniadau a gwybodaeth yn cael ei ddarparu ynglyn â hawliau i herio'r penderfyniad.

Mae rheoliad 14 yn gwneud mân newidiadau o ran datblygiad nas awdurdodwyd.

Mae rheoliadau 15 a 16 yn ymwneud â phrosiectau sy'n debygol o gael effeithiau trawsffiniol.

Mae rheoliadau 17 ac 18 yn gwneud mân newidiadau i Atodlenni 1 a 2 yn Rheoliadau 1999, yn eu trefn.

Mae rheoliad 19 yn gwneud mân ddiwygiad canlyniadol i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) 1995 (O.S. 1995/419) drwy ddiweddarau diffiniad sy'n gysylltiedig ag asesiad effaith amgylcheddol sydd yn erthygl 1 o'r Gorchymyn hwnnw.

Yn y Rheoliadau hyn, mae cyfeiriadau at “yr Ysgrifennydd Gwladol” neu at “the Secretary of State” i'w darllen fel cyfeiriadau at Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â rheoliad 2(6) o Reoliadau 1999. Gweler hefyd y cofnod ar gyfer Rheoliadau 1999 yn Atodlen 1 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

Status This is the original version (as it was originally made).